# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Tregeles

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r pennaeth wedi sefydlu ysgol groesawgar a llwyddiannus sy'n rhoi lles a dysgu o ansawdd uchel wrth wraidd bob gweithgaredd. Mae'r staff yn cydweithio'n agos â'i gilydd i greu amgylchedd diogel ac ysgogol i bob plentyn. Mae perthynas agos â rhieni a llywodraethwyr yn rhan annatod o'r diwylliant hwn, gan gyfrannu at gymuned ysgol hapus.

Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn darparu gweithgareddau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae athrawon yn sicrhau eu bod yn darparu cyfarwyddiadau clir, cydbwysedd addas o her a chefnogaeth, a chyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio drostynt eu hunain. Mae hyn yn helpu disgyblion i feithrin hyder ac annibyniaeth. Yn yr arfer orau, mae cwestiynau agored y staff yn annog disgyblion i feddwl yn ddyfnach er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth. Pan nad yw hyn mor effeithiol, mae'r staff yn dueddol o holi cwestiynau mwy arwynebol ac nid ydynt yn caniatáu digon o gyfleoedd i ddisgyblion  feddwl nac ymateb.

Mae hybu'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn ymateb yn frwd i fodelu iaith gyfoethog gan staff. Maent yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn gadarn. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o adeilad yr ysgol a'r ardaloedd allanol wrth ddarparu profiadau cyffrous ac eang i'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth a medrau mathemategol cadarn. Maent yn defnyddio adnoddau ymarferol yn fwriadus i gefnogi eu dealltwriaeth ac yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol i ddatrys problemau.

Er bod y staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion hŷn arwain a chyfrannu fel aelodau o'r Cyngor Ysgol, nid ydynt bob amser yn cael digon o brofiadau i ddylanwadu'n ehangach ar fywyd yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cysoni'r defnydd o holi effeithiol er mwyn herio a datblygu dealltwriaeth disgyblion ymhellach

A2 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain a dylanwadu ar waith yr ysgol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2026